# TANAU GWYLLT YM MANNAU BRYCHEINIOG

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn darganfod mwy am achosion tanau gwyllt a sut rydyn ni'n ceisio eu diffodd. Maen nhw'n ystyried y Triongl Tân a sut gallwn ni ddefnyddio hwn i feddwl am ffyrdd o ddiffodd tanau gwyllt. Mae dysgwyr yn ystyried effeithiau tanau gwyllt ar bobl a natur trwy ddychmygu eu bod ar wyliau pan mae tân gwyllt yn effeithio ar eu cymuned ac yn edrych ar wahanol safbwyntiau pobl eraill sy'n cael eu dal mewn tân gwyllt. Maen nhw'n ystyried sut mae tanau gwyllt yn effeithio ar y byd naturiol. Mae'r dysgwyr yn ystyried sut i gymryd camau i ddatrys y materion a ganfuwyd ynghylch tanau gwyllt; maent yn canolbwyntio ar un mater ac yn ystyried a chynllunio pa gamau y gallent eu cymryd i helpu i ddatrys y broblem. Mae dysgwyr yn dilyn eu cynllun, yn monitro cynnydd ac yn myfyrio ar y broses, gan ystyried yr hyn wnaeth weithio a'r hyn na weithiodd, cyn archwilio sut y gallent rannu eu gweithredoedd â chynulleidfa ehangach.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dull o gymryd ffotograffau, gwneud clipiau fideo a/neu glipiau sain megis tystiolaeth o'u hymgyrch.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW ACHOSION TANAU GWYLLT?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall mwy am achosion tanau gwyllt a sut rydyn ni'n ceisio eu diffodd.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth drafod beth sy'n digwydd yn y ffotograff.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n digwydd yma? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- Ydych chi wedi gweld unrhyw beth fel hyn o'r blaen? Ble? Pryd?

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, rhestrir rhai achosion tanau gwyllt. Gofynnwch i'r dysgwyr ddidoli'r achosion hyn yn: achosion naturiol; gallai fod yn digwydd yn naturiol ac/neu yn cael ei achosi gan fodau dynol; achosir gan fodau dynol.

## Sgrîn 5

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried yr achosion a ddewiswyd ganddynt ar gyfer y golofn ganol yn y tabl - gallai fod yn digwydd yn naturiol ac/neu yn cael ei achosi gan fodau dynol Yna, dylent drafod gyda phartner - Sut gall rhai achosion fod yn naturiol ac yn cael eu hachosi gan fodau dynol?

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n mynd allan i'r awyr agored er mwyn dod o hyd i ardaloedd lleol o dir a allai fod mewn perygl gan dân gwyllt. Cyn gwneud hynny, gofynnwch iddynt astudio'r map er mwyn penderfynu pa ardaloedd o dir y bydd angen iddynt ymweld â nhw, a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa nodweddion tir fyddai'n ei gwneud hi'n hawdd i dan gwyllt gydio?
- Ble ar y map fyddech chi'n dod o hyd i dir sydd â'r nodweddion hyn?
- Beth allai gychwyn pob un o'r tanau gwyllt ar yr ardaloedd hyn o dir? Pam?

## Sgrîn 7

Ewch â'r dysgwyr allan i arsylwi ar bob darn o dir am nodweddion a fyddai'n helpu tân gwyllt i gychwyn.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl am yr hyn maen nhw wedi'i ddarganfod am yr ardaloedd o dir a pheryglon tanau gwyllt, ac yna dewis un ardal y maen nhw'n meddwl sydd fwyaf mewn perygl. Yna, gofynnwch iddynt ddylunio poster i rybuddio eraill am risgiau tanau gwyllt ar y tir hwnnw.

## Sgrîn 9

Dangoswch y fideo (ychydig dros 2 funud o hyd) i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt ddarllen yr adroddiad: COP26: Wildfires and flooding prompt Welsh firefighter warning (Saesneg yn unig).

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Craig Hope yn sôn am 3 chyflwr allweddol sy'n arwain at danau gwyllt. Gofynnwch iddynt lusgo pob cyflwr at ei ddiffiniad cywir ar y sgrîn.

## Sgrîn 10

Eglurwch fod Craig Hope yn trafod sut mae'n meddwl y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar danau gwyllt yng Nghymru, yn y fideo a'r testun. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r newidiadau y gallwn eu disgwyl oherwydd newid yn yr hinsawdd?
- Sut ydych chi'n meddwl y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y tywydd yng Nghymru?
- Sut gallai newidiadau i batrymau tywydd effeithio ar nifer a maint y tanau gwyllt yng Nghymru?

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y Triongl Tân – tanwydd, ocsigen a gwres – y tri pheth sydd eu hangen er mwyn i dân gadw ynghyn. Gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol a pharu y rhan gywir o'r triongl tân gyda'r dull o'i ddiffodd.

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol am ddiffodd tanau gwyllt, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Triongl Tân.

**Cwestiynau ffocws**

- Gan feddwl am y tri dull o ddiffodd tanau o'r sgrîn flaenorol:
    - ei orchuddio â blanced
    - defnyddio diffoddwr tân wedi'i lenwi â $CO_2$
    - rhoi digon o ddŵr o bibell drosto,

  pa un ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol wrth fynd i'r afael â thân gwyllt mawr?
- Pam? Sut ydych chi'n meddwl y gellid gwneud hyn?

## Sgrîn 13

Dangoswch y fideo: Firefighters tackle Brecon Beacons grass fire (tua 1 munud 30 eiliad o hyd). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa strategaethau ac offer y mae diffoddwyr tân yn eu defnyddio i fynd i'r afael â thanau gwyllt?
- Gan gyfeirio at y Triongl Tân, beth mae diffoddwyr tân yn ceisio ei wneud?
- Sut mae diffoddwyr tân yn gwneud penderfyniadau ynghylch eu strategaethau?
- Beth arall y gallen nhw roi cynnig arno, yn eich barn chi?
- Ydy maint y tân(au) yn cael ei grybwyll?
    - Os ydyw, beth yw'r ardal?
- Ydy achosion posibl y tân(au) yn cael eu crybwyll?
    - Os ydynt, beth yw'r achosion?
    - Os na grybwyllir yr achosion posibl, beth yw'r achosion mwyaf tebygol yn eich barn chi?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhywfaint o ymchwil ar y rhyngrwyd i'r strategaethau eraill y mae diffoddwyr tân yn eu defnyddio i fynd i'r afael â thanau gwyllt.

## Sgrîn 14

Mae tanau gwyllt yn creu cylch sy'n anodd ei dorri. Gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau'r brawddegau i ddangos y cylch dieflig hwn.

## Sgrîn 15

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio dull digidol i greu siart llif sy'n dangos camau'r 'cylch dieflig' hwn, gan ddethol darlun/symbol/eicon ar gyfer pob cam.

TASG 2

# BETH YW EFFEITHIAU TANAU GWYLLT?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried effeithiau tanau gwyllt ar bobl a natur, yn y dasg hon.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y senario – gan ddychmygu bod tân gwyllt ffyrnig wedi bod yn llosgi o amgylch y gymuned leol, gan barhau am sawl diwrnod.

Dywedwyd wrth y bobl oedd yn byw yno i adael eu tai a mynd i'r ganolfan hamdden mewn tref gyfagos, lle buont yn aros am 2 ddiwrnod a 2 noson.

Mae diffoddwyr tân wedi llwyddo i ddiffodd y tân ond maent wedi creu llifogydd mewn rhan o'r gymuned wrth wneud hynny. Mae nifer o adeiladau, y tir amaeth o gwmpas a'r amgylchedd naturiol o amgylch yr ardal wedi eu llosgi'n llwyr.

## Sgrîn 4

Gan ddychmygu eu bod yn byw yn y gymuned yr effeithiwyd arni, ond eu bod ar wyliau ac yn derbyn neges gan ffrindiau/teulu yn dweud wrthynt am y tân, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut ydych chi'n teimlo wrth ddarllen y neges?
- Beth fyddech chi'n ei wneud nesaf? Pam?
- Beth allech chi ddisgwyl ei weld neu gael profiad ohono pan fyddwch chi'n cyrraedd adref?
- Beth sydd angen i chi ei wneud ar ôl cyrraedd adref? Pam?
- Mae effeithiau tanau gwyllt yn digwydd ar unwaith, ond gallant gael effeithiau parhaus, hirdymor. Pa effeithiau hirdymor y gallai'r tanau gwyllt eu cael ar bobl ac ar yr ardal leol?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried gwahanol safbwyntiau pobl ac anifeiliaid a allai fod wedi cael eu heffeithio gan y tân gwyllt. Gofynnwch iddynt feddwl am yr effeithiau sydd wedi digwydd ar unwaith a'r effeithiau hirdymor ar y bobl a ddisgrifir yn y tabl.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr sicrhau fod pob aelod o'r grŵp yn darllen un o'r adroddiadau newyddion canlynol ac yn gwneud rhai nodiadau.

Helicopter footage shows the awful scale of arson attacks in the Brecon Beacons – Wales Online (Saesneg yn unig)

Fire wipes out wildlife habitat in the Brecon Beacons – BBC News (Saesneg yn unig)

Yna, dylent gymryd eu tro i ddweud wrth y grŵp am beth roedd yr adroddiad yn sôn, gan ganolbwyntio ar:

- Ble digwyddodd hyn? (Defnyddiwch Google Maps (Saesneg yn unig) i ddod o hyd i'r lleoliad.)
- Pryd ysgrifennwyd yr adroddiad?
- Beth yw effeithiau'r tanau gwyllt y sonnir amdanynt yn yr adroddiadau?
- Pwy neu beth sydd wedi cael eu heffeithio? Sut maent wedi cael eu heffeithio?

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr glicio ar y cymeriadau ac ystyried barn y dysgwyr hyn. Yna, dylent ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un o'r dysgwyr hyn sy'n cyfleu'r safbwynt mwyaf grymus, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa safbwynt arall ynglŷn ag effeithiau tanau gwyllt, allech chi ei ychwanegu at y rhain?

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i greu ffeithlun yn rhybuddio pobl am effeithiau tanau gwyllt.

TASG 3

# BETH ALLWN NI EI WNEUD I LEIHAU'R NIFER O DANAU GWYLLT A'U HEFFEITHIAU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw nawr yn ystyried sut i gymryd camau i ddatrys y problemau sy'n ymwneud â thanau gwyllt. Byddant yn cyflawni eu cynllun i geisio gwella'r sefyllfa.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr, pan y bydd pobl yn meddwl y dylid newid cyfraith, efallai y byddan nhw'n cychwyn deiseb. Os bydd y ddeiseb yn cael digon o gefnogaeth, caiff ei hystyried gan y Pwyllgor Deisebau yn Senedd Cymru. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y ddwy enghraifft a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y dechreuwyd y deisebau hyn?
- Faint o bobl sydd wedi arwyddo pob un? Ydy'r niferoedd hyn yn eich synnu? Pam?
- A oedd y deisebau hyn yn llwyddiannus o ran sicrhau newid?
- Pam ydych chi'n meddwl y bu'r deisebau/na fu'r deisebau yn llwyddiannus?
- A fyddech chi wedi llofnodi'r deisebau hyn? Pam neu pam lai?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod cychwyn/llofnodi deiseb yn erbyn pethau fel barbeciws tafladwy a llosgi dan reolaeth yn un ffordd o gymryd camau i leihau nifer y tanau gwyllt. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sawl ffordd arall o weithredu allwch chi feddwl amdanynt?
- Beth mae pobl wedi ei wneud yn y gorffennol? Allwch chi feddwl am unrhyw syniadau newydd?

Ychwanegwch rai syniadau ac ystyriwch fanteision ac anfanteision pob un yn y tabl.

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr erthygl: Wildfires: Why they start and how they can be stopped (Saesneg yn unig).

Eglurwch y gallai fod yn anodd atal tanau gwyllt rhag digwydd o gwbl, mewn dyfodol a effeithir gan newid yn yr hinsawdd. Gofynnwch iddynt feddwl ynghylch a ddylem ganolbwyntio mwy ar leihau effaith a lledaeniad tanau gwyllt yn hytrach na'u hatal.

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y camau gweithredu i leihau effaith tanau gwyllt ac ychwanegu rhai o'r manteision a'r anfanteision yn y tabl.

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gweithio mewn grŵp i ddefnyddio'r broses a ddangosir ar y sgrîn i weithredu ar danau gwyllt. Gallant ganolbwyntio ar eu hatal neu leihau eu heffaith. Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith ar greu camau gweithredu posibl.

Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau i egluro eu dealltwriaeth o'r mater.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddech chi'n egluro achosion tanau gwyllt?
- Sut gallwch chi dynnu llun neu ddiagram a allai eich helpu i ddeall y mater?
- Sut byddech chi'n egluro effeithiau tanau gwyllt?
- A oes gennych ddigon o wybodaeth i'ch galluogi i ddatblygu cynllun? Os nad oes, beth arall sydd angen i chi ei wybod? Pam? Sut byddwch chi'n cael gwybod?

## Sgrîn 7

Anogwch nhw i drafod syniadau ynghylch sut y gallen nhw weithredu ar y mater. Ar y cam hwn, ni ddylai dysgwyr werthuso eu syniadau – dim ond rhestru cymaint o awgrymiadau creadigol â phosibl.

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar eu syniadau ac i benderfynu ar y syniad gorau a mwyaf ymarferol trwy ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa syniad(au) sydd fwyaf cyraeddadwy/realistig?
- Pa syniad(au) allwn ni gydweithio arno/arnynt heb orfod dibynnu gormod ar oedolion?
- Pa syniadau sy'n ymdrin ag achos(ion) neu effeithiau tanau gwyllt?
- Pa syniadau sy'n debygol o arwain at y deilliannau rydych chi eu heisiau?

## Sgrîn 8

Rhowch ddilyniant syml o gamau i'r dysgwyr, fel y gall pob dysgwr unigol ei ddefnyddio i wneud cynllun.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch bob dysgwr i egluro eu cynllun i weddill y grŵp. Sicrhewch nad oes neb yn torri ar draws dysgwr wrth iddynt egluro eu cynllun.

Gofynnwch i bob dysgwr wrando'n ofalus ar gynlluniau eu cyfoedion ac ysgrifennu:

- Yr hyn maen nhw'n ei hoffi am eu cynllun.
- Awgrym a allai wella'r cynllun.
- Cwestiwn am y cynllun.

Ar ôl i bob person gyflwyno eu cynllun, gall aelodau eraill y grŵp gyflwyno eu sylwadau a gofyn eu cwestiynau. Mae angen i'r grŵp ddewis un o'r cynlluniau unigol i'w roi ar waith fel grŵp. Ceisiwch wneud yn siŵr bod pawb yn y grŵp yn cytuno!

## Sgriniau 10-11

Gwahoddwch y dysgwyr i roi eu cynllun ar waith. Anogwch nhw i gofio gwneud y pethau hyn:

- Ceisiwch gadw'ch cynllun yn syml, yn realistig ac yn gyraeddadwy.
- Efallai na fyddwch chi'n newid y byd! Efallai mai dim ond cam bach, y cam cyntaf o fewn rhywbeth llawer mwy yw hwn.
- Cydweithiwch fel tîm. Casglwch dystiolaeth (ffotograffau, fideos, recordiadau sain) o'r hyn rydych chi'n ei wneud ar hyd y ffordd. Storiwch hwn yn ddigidol ar blatfform a rennir.
- Dylech **fonitro** i ba raddau y mae eich cynllun yn gweithio wrth i chi ei weithredu.
- Byddwch yn **hyblyg** a newidiwch eich cynllun os gwelwch nad yw'n gweithio'n dda.

## Sgrîn 12

Anogwch y dysgwyr i gymryd eu hamser i fyfyrio ac edrych yn ôl ar yr hyn y maent wedi'i wneud ac ystyried beth weithiodd a beth na wnaeth weithio. Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd hyn yn eu galluogi i ragfynegi strategaethau perthnasol i'w defnyddio i gynllunio a gweithredu ar faterion yn y dyfodol. Gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rannau o'r cynllun wnaeth weithio?
- Pa rannau o'r cynllun oedd ddim yn gweithio cystal? Pam?
- Sut wnaethoch chi newid y cynllun wrth fynd ymlaen? A wnaeth y newidiadau hyn helpu? Sut?
- Pa fath o effaith y mae eich gweithredoedd wedi'i chael hyd yn hyn?
- Sut gallwch chi fonitro pa mor effeithiol yw eich gweithredoedd dros yr ychydig wythnosau/misoedd nesaf?
- Beth arall allech chi ei wneud i fynd â hyn ymhellach? Sut gallai hyn helpu?

## Sgrîn 13

Ceisiwch gynnwys y dysgwyr yn y broses o rannu tystiolaeth o'u gweithredoedd. Gwahoddwch nhw i greu naill ai boster; ffeithlun; llyfr lloffion neu adroddiad am eu gweithredoedd, gan gofio egluro a dangos:

- Pa gam(au) a gymerwyd ganddynt.
- Effaith(au) yr hyn a wnaethant.
- Unrhyw gamau nesaf y gallent eu cymryd ar y mater hwn.

## Sgrîn 14

Anogwch y dysgwyr i archwilio sut y gallent rannu gwybodaeth i gynulleidfa ehangach am yr hyn y maen nhw wedi ei wneud, trwy ddilyn y camau hyn.

- Canfod sut i gael erthygl wedi ei chyhoeddi mewn papur newydd lleol.
- Adolygu erthyglau sydd eisoes yn y papur newydd ac ysgrifennu rhestr o nodweddion sy'n gyffredin yn yr erthyglau.
- Ysgrifennu erthygl i'r papur newydd, gan gynnwys lluniau.

Anfonwch eich erthygl yn ddigidol i'r papur newydd a gofynnwch am iddi gael ei chyhoeddi.